# Fforwm Tacsis Cyngor Sir Ddinbych

## Pecyn ymgynghori ar gyfer defnyddwyr tacsi

### Beth ydym yn ei wneud?

Rydym yn sefydlu Fforwm Tacsis yn Sir Ddinbych.

Bydd y Fforwm yn gyfarfod neu'n weithdy a gynhelir unwaith y flwyddyn, cyn i'r Cyngor adolygu eu dabl o dariffau ar gyfer cerbydau hacni (tacsis).

### Pam ydym ni'n gwneud hyn?

Ar 10 Medi 2025, gofynnodd Pwllgor Trwyddedu Cyngor Sir Ddinbych fod swyddogion yn y tîm trwyddedu yn sefydlu 'gweithgor' i ddeall sut y gallai newidiadau i brisiau tacsi effeithio ar fusnesau tacsis a'u cwsmeriaid.

Rydym yn rhagweld y bydd y Fforwm yn cynnwys yr aelodaeth ganlynol:

- Tîm trwyddedu Cyngor Sir Ddinbych
- Cynghorwyr Sir Ddinbych
- Gweithredwyr neu berchnogion Cerbydau Hacni
- Gweithredwyr neu berchnogion Cerbydau Hurio Preifat
- Defnyddwyr tacsis

### Beth ydym ni eisiau ei wybod?

Yn y cyfarfod cyntaf rydym yn bwriadu sefydlu:

1. Cylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm, gan gynnwys:
    - Aelodaeth
    - Amlder cyfarfodydd
    - Pŵer i wneud argymhellion i'r Cyngor
2. Sut mae costau byw wedi cael effaith ar fasnach busnesau tacsis
3. Sut mae costau byw wedi effeithio ar ddewisiadau cwsmeriaid
4. Sut gall y Cyngor ddod o hyd i gydbwysedd rhwng cefnogi busnesau tacsis i wneud elw, a chynrychioli gwerth da i ddefnyddwyr tacsis
5. Sut y gallwn wella Fforymau ac ymgynghoriadau ar brisiau cerbydau hacni yn y dyfodol

### Pa wahaniaeth a fydd yn ei wneud?

Yn ystod yr ymgynghoriad adolygu prisiau diwethaf yn 2025, cawsom nifer o ymatebion gan y busnes nad oedd y cynnydd arfaethedig i brisiau yn ddigon.

Ar y llaw arall, yn ystod yr ymgynghoriad adolygu prisiau blaenorol yn 2023, cawsom ymatebion gan y busnes bod y cynnydd arfaethedig i brisiau yn ormod, ac roedd perchnogion tacsis yn poeni y gallai'r cynydd arwain at drigolion yn stopio tacsis yn gyfan gwbl.

Drwy sefydlu Fforwm a chaniatáu i weithredwyr tacsis a defnyddwyr tacsis ddod ynghyd a rhannu eu profiadau a'u pryderon gyda ni, rydym yn gobeithio y gallwn greu tabl o ffioedd bob blwyddyn sy'n gweithio (cymaint â phosibl) i bawb.

### Sut ellwch chi gymryd rhan?

Cymerwch ran yn ein harolwg

## Sut i gwblhau'r arolwg hwn:

**Ar-lein**

Os bosib, cwblhewch yr arolwg hwn ar-lein drwy ymweld â'r ddolen wefan ganlynol neu sganio'r cod QR:

SGANIWCH FI

www.sirddinbych.gov.uk/ymgyngoriadau

**Yn ysgrifenedig:**

Os oes angen i chi lenwi'r copi papur hwn, gwnewch hynny a'i ddychwelyd:

• **Dychwelwch ef i unrhyw Lyfrgell a/neu Siop Un Stop Sir Ddinbych** (gan gynnwys Neuadd y Sir yn Rhuthun) yn ystod oriau agor arferol

### Y dyddiad cau ar gyfer pob ymateb yw: Dydd Sul 29 Mawrth 2026

# Fforwm Tacsis Cyngor Sir Ddinbych

## Arolwg ar gyfer ddefnyddwyr tacsis

---

Mae'r holiadur hwn ar gyfer pobl sy'n teithio fel teithiwr mewn tacsi.

---

**Lle ydych chi'n byw?**

**Noder:** os nad yw eich dinas neu dref wedi'i rhestru, dewiswch yr un agosaf, neu ysgrifennwch eich lleoliad os yw'n well gennych

- ❒ Y Rhyl
- ❒ Prestatyn
- ❒ Dyserth
- ❒ Rhuddlan
- ❒ Llanelwy
- ❒ Dinbych
- ❒ Rhuthun
- ❒ Llangollen
- ❒ Corwen

Dwi'n byw rhywle arall:

| |
|---|
| *Nôd eich leoliad yma* |

**Beth yw eich oed?**

Ticiwch un dewis yn unig

- ❒ 0-15 oed
- ❒ 25-34 oed
- ❒ 45-54 oed
- ❒ 65-74 oed
- ❒ 16-24 oed
- ❒ 35-44 oed
- ❒ 55-64 oed
- ❒ 75 oed neu mwy
- ❒ Gwell gen i beidio dweud

**Pa mor aml ydych chi'n defnyddio tacsi fel arfer?**

- ❐ Mwy nag unwaith y dydd
- ❐ O leiaf unwaith y dydd
- ❐ O leiaf unwaith yr wythnos
- ❐ O leiaf unwaith y mis
- ❐ Llai aml

**Yw tacsis eich prif ddull teithio?**

- ❐ Ydw
- ❐ Nac ydw

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio taith nodweddiadol orau i chi?**

Taith nodweddiadol yw'r math o daith rydych chi'n ei gwneud amlaf. Peidiwch â phoeni am deithiau achlysurol sy'n wahanol.

- ❐ Fel arfer, rwy'n teithio'n gyfan gwbl o fewn Sir Dinbych
- ❐ Fel arfer, rwy'n teithio o leoliad allan o'r sir, i fewn i Sir Ddinbych
- ❐ Fel arfer, rwy'n teithio o Sir Ddinbych i leoliad allan o'r sir.

**Pa rai o'r mathau canlynol o deithiau ydych chi'n eu gwneud amlaf mewn tacsi?**

**Gallwch ddewis hyd at dri ateb.** Bydd hyn yn ein helpu i restru'r mathau mwyaf cyffredin o deithiau a wneir.

- ❒ Mynd i'r gwaith neu addysg (ysgol/coleg) neu'n ôl
- ❒ Mynd i siopa neu wneud tasgau fel ymweld â thriniwr gwallt, llyfrgell, fferyllfa, Swyddfa'r Post, ac ati
- ❒ Apwyntiadau iechyd fel ymweld â deintydd, meddyg, neu glinig ysbyty
- ❒ Mynd i noson allan fel tafarndai/clybiau nos ac ati, neu'n ôl
- ❒ Mynd i ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus fel gorsaf fysiau neu orsaf reilffordd, neu'n ôl
- ❒ Teithiau hirach fel trafnidiaeth i feysydd awyr neu deithio traws gwlad
- ❒ Arall:

**Beth yw'r prif resymau pam rydych chi'n defnyddio tacsi?**

**Gallwch ddewis hyd at dri ateb.** Bydd hyn yn ein helpu i restru'r mathau mwyaf cyffredin o deithiau a wneir.

- ❒ Dydw i ddim yn gyrru neu does gen i ddim mynediad at gar (naill ai'n barhaol neu dros dro)
- ❒ Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn fy ardal yn annibynadwy, neu ni fydd trafnidiaeth gyhoeddus yn fy nghael i ble mae angen i mi fynd ar yr amser y mae angen i mi gyrraedd yno
- ❒ Mae gen i anghenion teithio ychwanegol (e.e. anghenion symudedd neu hygyrchedd)
- ❒ Mae'n well gen i deithio mewn tacsi
- ❒ Yn fwy cyfleus (e.e. dim rhaid dod o hyd i rywle i barcio)
- ❒ Rhesymau diogelwch (e.e. os ydw i eisiau cael diod, neu os yw'n teimlo'n fwy diogel cymryd tacsi na cherdded yn y nos)
- ❒ Arall:

**Pa fath o wasanaeth tacsi ydych chi'n meddwl eich bod chi'n ei ddefnyddio amlaf?**

- ❒ Cerbyd hacni (gellir ei alw ar y stryd neu ei hurio o safle tacsi)
- ❒ Tacsi hurio preifat (archebu ymlaen llaw dros y ffôn, ap neu ar-lein)
- ❒ Y ddau yn gyfartal
- ❒ Dydw i ddim yn siŵr

**Os nad ydych chi'n defnyddio tacsis cerbydau hacni, ewch ymlaen i'r dudalen nesaf.**

**Os ydych chi'n defnyddio tacsis hacni yn bennaf, ai hyn oherwydd...?**

- ❒ Nhw yw'r unig weithredwr yn yr ardal
- ❒ Maen nhw'n rhatach na thacsis hurio preifat

**Pa mor aml ydych chi'n defnyddio safle tacsis ("taxi rank")?**

- ❒ Mae pob siwrnai rwy'n ei gwneud mewn tacsi i neu o safle tacsis.
- ❒ Mae mwy na hanner y siwrneiau rwy'n eu gwneud mewn tacsi yn mynd i neu o safle tacsi
- ❒ Llai na hanner y siwrneiau rwy'n eu gwneud mewn tacsi yw i neu o safle tacsi
- ❒ Nid yw'r un o'r siwrneiau rwy'n eu gwneud mewn tacsi yn mynd i neu o safle tacsi.

**Beth yw eich barn chi am safleoedd tacsis ("taxi ranks") yn eich ardal leol?**

- ❒ Dw i'n meddwl eu bod nhw wedi'u lleoli'n gyfleus
- ❒ Dw i'n meddwl eu bod nhw wedi'u lleoli'n wael
- ❒ Dwi ddim yn meddwl bod digon o safleoedd tacsis
- ❒ Dydw i ddim yn defnyddio safleoedd tacsis

**Os nad ydych chi'n defnyddio tacsis llogi preifat, ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.**

**Os ydych chi'n defnyddio tacsis hurio preifat yn bennaf, ai oherwydd...?**

- ❐ Does dim gweithredwyr cerbydau hacni yn fy ardal i
- ❐ Mae tacsis hurio preifat yn rhatach na thacsis cerbyd hacni
- ❐ Arall

---

**A yw costau byw wedi effeithio ar eich defnydd o dacsi?**

- ❐ Rwy'n defnyddio tacsis yn llai aml nag yr oeddwn i'n arfer, ac mae hyn yn golygu fy mod i'n mynd allan yn llai cyffredinol
- ❐ Rwy'n defnyddio tacsis yn llai aml nag yr oeddwn i'n arfer, ac rwyf wedi cyfnewid siwrneiau tacsi am fathau eraill o deithio (megis trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu lifft ac ati)
- ❐ Rwy'n defnyddio tacsis yn amlach nag yr oeddwn i'n arfer (e.e. oherwydd bod yn rhaid i mi roi'r gorau i'm car)
- ❐ Nid yw costau byw wedi cael unrhyw effaith ar fy nefnydd o dacsi

**Yn gyffredinol, ydych chi'n teimlo bod...?**

- ❐ Mae tacsis yn Sir Ddinbych yn rhy ddrud
- ❐ Mae tacsis yn Sir Ddinbych yn rhesymol o ran pris, neu'n gymharol â thacsis mewn lleoliadau cyfagos eraill.
- ❐ Mae tacsis yn Sir Ddinbych yn rhatach nag mewn lleoliadau cyfagos eraill
- ❐ Dydw i ddim yn siŵr / Does gen i ddim barn

**Os ydych chi'n teimlo bod tacsis yn rhy ddrud, ai oherwydd...?**

***Dewiswch hyd at 3 pheth*** *rydych chi'n meddwl sy'n cyfrannu at y ffaith bod tacsis yn rhy ddrud. Bydd dewis eich '3 uchaf' yn ein helpu i ddeall ble mae pobl yn cael trafferth..*

- ❐ Mae'r ffi cychwynnol (y pris rydych chi'n ei dalu cyn i chi hyd yn oed fynd yn y tacsi) yn rhy uchel
- ❐ Mae'r pris fesul milltir yn rhy uchel
- ❐ Mae'r ffioedd aros yn rhy uchel
- ❐ Mae'r ffioedd hwyr y nos / gwyliau yn rhy uchel
- ❐ Mae ffioedd ychwanegol (e.e. ar gyfer bagiau, glanhau os ydych chi'n teithio gydag anifail anwes) yn rhy uchel
- ❐ Arall

**Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r Cyngor ddod o hyd i gydbwysedd rhwng sicrhau bod gyrwyr tacsi yn ennill bywoliaeth dda, a sicrhau gwerth da i ddefnyddwyr tacsi?**

***Nodwch:*** *mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol eisoes i gynnal ymgynghoriad â gyrwyr tacsi ac aelodau'r cyhoedd cyn gosod tabl o brisiau.*

**Rhowch wybod i ni os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:**

| Mae angen i mi deithio mewn tacsi Cerbyd â Chymorth Cadair Olwyn (WAV) oherwydd fy mod i neu rywun rwy'n teithio gydag ef bob amser yn defnyddio cadair olwyn, cadair bŵer neu sgwter symudedd | **Ydw** | **Nac ydw** |
|---|---|---|
| Mae angen sedd hybu plant neu le ar gyfer cadair wthio plant arnaf i neu rywun rwy'n teithio gydag ef. | ❒ | ❒ |
| Mae gen i neu rywun rwy'n teithio gydag ef bob amser Gi Tywys | ❒ | ❒ |
| Mae angen i mi neu rywun rwy'n teithio gydag ef bob amser ddod ag anifail anwes rheolaidd (e.e. ci neu gath anwes) | ❒ | ❒ |

**Os ateboch chi 'nac ydw' i'r holl gwestiynau uchod, ewch ymlaen i'r dudalen nesaf**

**Os oes gennych unrhyw un o'r anghenion ychwanegol a amlinellwyd uchod, a allwch chi fel arfer archebu tacsi sy'n diwallu eich anghenion?**

❒ Oes

❒ Nac oes

**Os na allwch chi bob amser ddod o hyd i dacsi sy'n diwallu eich anghenion neu archebu un, ai oherwydd...?**

❒ Nid oes unrhyw weithredwyr neu nid oes digon o weithredwyr yn yr ardal gyda cherbyd sy'n addas ar gyfer fy anghenion

❒ Mae gweithredwr wedi dweud nad ydyn nhw'n gallu diwallu fy anghenion

❒ Arall…

# Sylwadau terfynol

**Ar y cyfan, a ydych chi'n fodlon â'r ddarpariaeth tacsis yn eich ardal leol?**

- ❒ Ydw
- ❒ Nac ydw

**A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ychwanegol?**

## Eich manylion cyswllt

I gymryd rhan yn y fforwm tacsis neu i ofyn am gopi o ganfyddiadau'r ymgynghoriad pan fyddant ar gael, rhowch eich manylion cyswllt.

***Datganiad Preifatrwydd:*** *Bydd Cyngor Sir Dinbych yn prosesu eich data personol at ddibenion penodol sefydlu'r fforwm tacsis yn unig, ac i ddosbarthu canfyddiadau'r fforwm. Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir Dinbych yn trin eich data personol, ewch i [www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd](www.sirddinbych.gov.uk/preifatrwydd)*

Bydd y fforwm tacsis yn gyfarfod wyneb yn wyneb a gynhelir unwaith y flwyddyn, cyn i'r Cyngor adolygu prisiau Cerbydau Hackney.
Bydd y fforwm yn cynnwys:

1. Gweithredwyr tacsis
2. Defnyddwyr tacsis (dyna chi!)
3. Aelodau o bwyllgor trwyddedu'r Cyngor

Bydd y fforwm yn cael ei hwyluso gan hwylusydd annibynnol

**Noder:** ni allwn warantu y bydd pawb sy'n mynegi diddordeb yn cael eu gwahodd i fynychu. Byddwn yn anelu at ddewis tua 5-6 o ddefnyddwyr gan gynnwys:

- Pobl o bob cwr o Sir Ddinbych
- Pobl ag anghenion teithio ychwanegol (e.e. defnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl sy'n teithio gyda chadeiriau gwthio a phlant bach)
- Pobl sy'n teithio gydag anifeiliaid cymorth a/neu anifeiliaid anwes.

Os na chewch eich dewis, peidiwch â phoeni! Mae eich atebion i'r arolwg hwn yn gyfraniad gwerthfawr a bydd eich data yn ein helpu i weithio gyda defnyddwyr tacsis a gweithredwyr tacsis i sefydlu tabl o brisiau sy'n cydbwyso anghenion pawb, gobeithio. Rydym yn ddiolchgar am eich amser.

**Rhowch wybod i ni beth yw eich dewisiadau cyswllt:**

| | |
|---|---|
| ❒ | Hoffwn gofrestru fy niddordeb yn y fforwm tacsis a derbyn copi o ganlyniadau'r ymgynghoriad pan fyddant ar gael. |
| ❒ | Dim ond copi o ganlyniadau'r ymgynghoriad pan fyddant ar gael yr hoffwn ei gael |
| ❒ | Nid wyf am gael fy nghysylltu ymhellach |

**Os nad ydych chi eisiau cael eich cysylltu ymhellach, nid oes angen i chi lenwi'r dudalen nesaf.**

**Sut hoffech chi i ni gysylltu â chi?**

Ticiwch un dewis un unig

❐ E-bost ❐ Llythyr yn y post ❐ Galwad/neges ffôn ❐ WhatsApp / SMS

❐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

**Ysgrifennwch eich manylion cyswllt dewisol yn y blwch isod**

Nodwch: os ydych chi'n rhoi eich cyfeiriad post, cofiwch gynnwys eich cod post

**Beth yw eich iaith dewisol?**

Ticiwch un dewis un unig

❐ Cymraeg ❐ Saesneg (English)

❐ Iaith arall (nodwch iso dos gwelwch yn dda)

## Diolch am eich amser

Bydd eich barn yn hanfodol i'n helpu i ddeall y materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr tacsis yn Sir Ddinbych a bydd yn ein helpu i sicrhau bod gennym broses ymgynghori deg ar waith cyn i ni osod prisiau cerbydau hacni ar gyfer 2026-27.